

City & Guilds Diploma NVQ mewn Trin Gwallt Lefel 2



Yn gwyno

Mae Lefel 2 Trin Gwallt yn adeiladu ar y sgiliau sylfaenol a ddatblygir ar Lefel 1 Trin Gwallt ac yn eich gosod ar y llwybr tuag at weithio fel triniwr gwallt proffesiynol. Mae'r cwrs yn seiliedig ar weithio yn ein salonau hyfforddi proffesiynol gyda chleientiaid. Level 2 Hairdressing builds on the foundation skills which are developed at Level 1 Hairdressing and sets you on the path towards working as a professional hairdresser. The course is based around working in our professional training salons with clients.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Rydych chi wedi cwblhau cwrs Trin Gwallt Lefel 1 neu Lefel 1 Gwallt a Harddwch

... Rydych chi'n barod i adeiladu eich sgiliau trin gwallt mewn lleoliad byd go iawn

... Rydych chi'n paratoi ar gyfer rolau cyffrous mewn salonau, neu â diddordeb mewn cychwyn eich busnes eich hun



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r sector trin gwallt yn symud yn gyflym a byddwch yn gweithio mewn salonau coleg i gael dealltwriaeth fanwl o'r sgiliau sydd eu hangen i weithio fel triniwr gwallt.

Hyfedredd Technegol: Datblygu amrywiaeth o dechnegau torri, lliwio a steilio a fydd yn eich gosod ar wahân yn y diwydiant.

Cyfathrebu: Dysgu ymgysylltu'n effeithiol â chleientiaid, deall eu hanghenion, a meithrin perthnasoedd parhaol.

Creadigrwydd: Datblygwch eich steil personol a dysgwch sut i greu edrychiadau sy'n apelio at gwsmeriaid amrywiol.

Proffesiynoldeb: Deall pwysigrwydd cynnal delwedd ac amgylchedd proffesiynol yn eich ymarfer.

Cyflwynir y cwrs trwy gyfuniad o weithdai theori ac ymarferol ac mae wedi'i seilio'n helaeth mewn sesiynau salon masnachol.

Byddwch hefyd yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn:

Sgyrsiau diwydiant gan arbenigwyr ym maes trin gwallt
Cystadlaethau mewnol a'r cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau Ysbrydoli Rhagoriaeth
Sgiliau yng Nghymru a'r DU/Sgiliau'r
Byd Cyfweliadau diwydiant

Byddwch yn gweithio ar ddatblygu eich sgiliau mewn ystod o sesiynau ymarferol a theori, gan weithio tuag at asesiadau yn eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o'r sector. Mae yna nifer o arholiadau ar-lein yn ogystal ag ystod o asesiadau ymarferol gyda chleientiaid.

Beth a ddisgwylir ohonof i? O ran cymwysterau, mae angen o leiaf Diploma Lefel 1 mewn Trin Gwallt neu Ddiploma Lefel 1 mewn Gwallt a Harddwch, a naill ai TGAU Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith 1af gradd D neu uwch. Byddwch yn barod i weithio o fewn lleoliad salon hyfforddi proffesiynol, gan weithio gyda chleientiaid dan oruchwyliaeth fel rhan o'ch datblygiad yn y diwydiant.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Lefel 3 mewn Trin Gwallt neu gyflogaeth ar lefel prentis uwch.

Gwybodaeth Ychwanegol

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £82 - £91, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2025/2026 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

